



# Beth yw PONT?

Pori, Natur a Threftadaeth – Grazing, Nature and Heritage - yw sefydliad pori dielw Cymru.

Gweledigaeth PONT yw hybu arferion pori sy'n amgylcheddol gynaliadwy ac yn sicrhau manteision niferus i fywyd gwyllt a phobl nawr ac yn y dyfodol.

## Manteision pori:

- Mae rheolaeth dda ar bori'n hanfodol er mwyn cynnal llawer o'n cynefinoedd bywyd gwyllt sydd â chyfoeth o rywogaethau. Gall reoli rhywogaethau ymosodol ac ymledol, cynnal cynefinoedd agored drwy atal llwyni rhag ymledu, a chreu bylchau er mwyn i rywogaethau newydd allu egino.
- Gall yr economi wledig elwa o well incwm ar ffermydd drwy well rheolaeth ar bori tir ymylol a marchnata cynnyrch lleol a chyfeillgar i fywyd gwyllt.
- Ar gyrion trefol, mae pori o fudd i gymunedau lleol drwy leihau'r risg o danau a gwella mynediad i ofod gwyrdd.
- Yn yr amgylchedd ehangach gall pori gefnogi rheolaeth ar y risg o lifogydd a bod o fudd i beillwyr.

## Sut mae PONT yn gweithio:

Bydd tîm PONT, sy'n cael ei gyllido i ddechrau gan Lywodraeth Cymru, yn gweithio gyda sefydliadau anllywodraethol, cymunedau, a rheolwyr a pherchnogion tir er mwyn datblygu a chefnogi Cynlluniau Pori Lleol a Rhwydweithiau Pori Lleol ledled Cymru.

Mae PONT yn gweithio gyda'r rhai sydd o blaid pori cadwriaethol, o feysydd fel cadwraeth natur, addysg a chymunedau ffermio, sy'n gallu helpu gyda gwybodaeth am amrywiaeth eang o bynciau.

Mae gwaith PONT yn ystod yr 8 mlynedd diwethaf wedi arwain at reolaeth well ar bori a manteision amgylcheddol ehangach ledled Cymru, gan gynnwys mentrau ar Ynys Môn ac yn Sir Gaerfyrddin a Phen-y-bont ar Ogwr.

## Beth mae PONT yn ei gynnig:

- **Cyngor a chefnogaeth ymarferol** gyda sefydlu mentrau pori a datrysiadau ar safleoedd. Mae'n cynnwys help gyda cheisiadau cyllido a datblygu cynlluniau marchnata lleol.
- **Cefnogaeth** i Reoli Adnoddau Naturiol, Cynllun Adfer Natur ac amcanion Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru.
- **Hyfforddiant** mewn sgiliau sy'n amrywio o archwilio stoc i farchnata cynnyrch lleol, bugeilio manwl a chyfathrebu; gan helpu eraill i ddatblygu busnesau sy'n hyfyw yn economaidd a sicrhau manteision i fyd natur ar y tir.

## Cofiwch gysylltu:

- Os hoffech gael help gyda sefydlu cynllun pori lleol
- Os hoffech gael ymweliad safle i drafod pori
- Os oes gennych syniad cyllido yr hoffech ei ddatblygu
- Os hoffech gael cyngor neu gefnogaeth gyda phrosiect pori
- Os oes gennych syniadau ar gyfer hyfforddiant yr ydych yn credu y gallai PONT ei gyflwyno
- Os hoffech i PONT gyfrannu at ddigwyddiad neu hyfforddiant

info@pontcymru.org
www.pontcymru.org



# GRAZING IS AMAZING!

PONT
Pori
Natur a
Threftadaeth

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government







# What is PONT?

Pori Natur a Threftadaeth – Grazing, Nature and Heritage- is Wales's not-for-profit grazing organisation.

PONT's vision is to promote environmentally sustainable grazing practices which deliver multiple benefits for wildlife and people now and into the future.

## Grazing benefits:

- Good grazing management is essential for maintaining many of our species-rich wildlife habitats. It can control aggressive and invasive species, sustain open habitats and create gaps for new species to germinate.
- The rural economy can gain from improved farm incomes through better grazing management of marginal land and the marketing of wildlife friendly, local produce.
- In the urban fringe grazing benefits communities through reducing fire risk and improving access to green space.
- In the wider environment grazing can support flood risk management and promote pollinators.

## How PONT works:

The PONT team, initially funded by the Welsh Government, will work with NGOs, communities, land managers and owners to develop and support Local Grazing Schemes and Networks across Wales.

PONT works with conservation grazing advocates drawn from across the nature conservation, education and farming communities who can offer information on a wide range of subjects.

Over the last 8 years PONT has delivered improved grazing management and wider environmental results across Wales including successful initiatives in Anglesey, Carmarthenshire and Bridgend.

## What PONT offers:

- **Practical advice and support** for establishing grazing initiatives and site based solutions. Including help with funding bids and developing local marketing schemes.
- **Support** for Natural Resource Management, the Nature Recovery Plan and Welsh Government's Future Generations Act goals.
- **Training** in skills ranging from stock checking to local produce marketing and close shepherding to communication; helping others to develop economically viable businesses that deliver nature benefits on the ground.

## Get in touch if you:

- Would like help with establishing a local grazing scheme
- Would like a site visit to look at grazing issues
- Have a funding idea you would like help to develop
- Would like advice or support with a grazing project
- Have ideas for training that you think PONT could deliver
- Would like PONT to contribute to an event or training

info@pontcymru.org
www.pontcymru.org

# PORI YN RHAGORI!

PONT
Pori
Natur a
Threftadaeth

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government